**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru

SeneddMADY@senedd.cymru

17Medi 2020

Annwyl David,

**Cytundeb Rhyngsefydliadol – Cyfarfodydd Gweinidogol ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol**

Rhoddais ddiweddariad ichi yn ddiweddar am fandad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar gyfer y gwaith sy'n digwydd ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, a'u cytundeb i'r gwaith hwnnw hefyd.

Roeddwn wedi sôn eisoes bod gweinidogion Cysylltiadau Rhynglywodraethol wedi cyfarfod i drafod peirianwaith ac osgoi a datrys anghydfodau ar 12 Awst. Trefnwyd cyfarfodydd pellach ar gyfer 8 a 10 Medi. Cyfunwyd y cyfarfodydd hyn ac fe'u cynhaliwyd ar 10 Medi.

Cadeiriais y cyfarfod hwn, ac yn bresennol hefyd roedd Chloe Smith AS, y Gweinidog dros y Cyfansoddiad a Datganoli, Llywodraeth y DU, Jenny Gilruth ASA, y Gweinidog dros Ewrop a Datblygu Rhyngwladol, Llywodraeth yr Alban, a'r Gweinidogion Gordon Lyons ACD a Declan Kearney ACD, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Gan nodi effaith a goblygiadau sylweddol a niweidiol Bil Marchnad fewnol Llywodraeth y DU o ran cysylltiadau rhynglywodraethol, fe wnaethom gytuno serch hynny fod angen bwrw ymlaen â'r gwaith ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar y cyd o fewn y fforwm hwn.

Gwnaethom gynnydd pellach o ran osgoi a datrys anghydfodau, a pheirianwaith, er bod mwy o waith i'w wneud, a gofynnwyd i swyddogion barhau i gydweithio ar y cynigion. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth maes o law.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition